# Arweiniad ar gyfer Amddiffyn Oedolion

## Polisi a Dulliau Gweithredu De Cymru

Cyhoeddwyd Polisi a Dulliau Gweithredu Rhyngasiantaethol Fforwm Amddiffyn Oedolion De Cymru yn Rhagfyr 2001. Cafodd y ddogfen ei llunio mewn ymateb i arweiniad y Cynulliad a ddosbarthwyd yn 2000 o dan y teitl 'Mewn Dwylo Diogel'.

Mae Fforwm Amddiffyn Oedolion De Cymru'n cynnwys awdurdodau lleol, yr heddlu, ymddiriedolaethau GIG byrddau iechyd lleol, cynrychiolwyr o'r sectorau gwirfoddol ac annibynnol ac aelodau o'r cyhoedd. Bydd y Fforwm yn cydweithio er mwyn amddiffyn hawliau oedolion bregus a herio ac atal y rhai sy'n eu cam-drin.

Lansiodd Cyngor Bro Morgannwg y polisi yn Chwefror 2002.

Mae'r polisi diwygiedig ar gael yn Gymraeg a Saesneg a chewch gopi ohono yn y ddwy iaith yn ogystal â dogfennau am oedolion bregus ar wefan Fforwm Amddiffyn Oedolion De Cymru **www.swapforum.org**

## Oedolion Bregus yw:

pobl a ddylai gael gofal yn y gymuned ar ôl cyrraedd eu 18 oed am eu bod yn feddyliol neu'n gorfforol anabl, yn oedrannus neu'n sâl. Maent yn aml yn bobl sy'n methu â gofalu amdanynt eu hunain a gallent fod mewn perygl o gael eu niweidio neu'u hecsbloetio'n ddifrifol am na allant eu hamddiffyn eu hunain.
***Comisiwn y Gyfraith 'Who Decides' 1997***

## Diffinio Oedolion Bregus

**Gallai oedolion fod yn fregus:**
os oes ganddynt anabledd dysgu neu broblemau iechyd meddwl, neu os ydynt yn hŷn neu'n anabl. Bydd mwy fyth o berygl os oes ffactorau eraill yn cymhlethu'r sefyllfa e.e. os yw'r person yn wan, yn dioddef o salwch tymor hir, yn dlawd, yn ddi-waith, yn camddefnyddio sylweddau, yn ymddwyn mewn ffordd heriol neu os oes gan y person nam ar y synhwyrau neu broblemau cymdeithasol neu emosiynol.

**Wrth gael eu cam-drin bydd pobl yn cael eu hamddifadu o'u hawliau dynol a sifil**
Gallai camdriniaeth fod yn un weithred neu'n rhywbeth a fydd yn digwydd dro ar ôl tro.

Gallai fod yn gorfforol, yn eiriol, yn ariannol neu'n rhywiol.

Gellwch gam-drin pobl nid yn unig drwy wneud cam bwriadol â hwy ond hefyd drwy eu hesgeuluso neu beidio â gweithredu o'u plaid.

## Mathau o gam-drin

**Cam-drin corfforol**
Bwrw, clatsio, gwthio, cicio, camddefnyddio moddion pobl neu'u rhwystro neu'u gwahardd yn ddiangen rhag cael neu wneud rhywbeth.

**Cam-drin seicolegol/emosiynol**
Bygwth niweidio neu adael pobl, eu hiselhau, eu sarhau ar lafar, eu sarhau oherwydd eu hil, galw enwau diraddiol neu ddifrïol arnynt, eu hynysu neu'u hamddifadu o wasanaethau neu rwydweithiau o gefnogwyr.

**Cam-drin rhywiol**
Treisio oedolion bregus, gorfodi gweithgarwch rhywiol ar oedolion bregus neu'u denu i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol pan fo'n amlwg eu bod heb gydsynio neu'n methu â chydsynio.

**Cam-drin ariannol**
Dwyn oddi ar oedolion bregus, eu twyllo, pwyso arnynt i drafod eu hewyllys, eu heiddo neu'u hetifeddiaeth mewn ffordd arbennig, camddefnyddio eu budd-daliadau.

**Esgeuluso neu beidio â gweithredu**
Mae hyn yn cynnwys peidio â threfnu i bobl fregus gael gofal meddygol neu wasanaethau.

Enghreifftiau o esgeuluso oedolion bregus drwy eu dodi mewn perygl yw: peidio â rhoi moddion presgipswin iddynt , peidio â rhoi bwyd maethlon iddynt neu beidio â'u cadw'n gynnes.

## Cam-drin corfforol

**Chwiliwch am yr arwyddion hyn**
- Cleisiau sy'n anghyson â'r rheswm a roddwyd amdanynt e.e. bod y person wedi cwympo ac ati;
- Cwato gan ofn, a gwingo
- Llygaid duon, olion clatsio a/neu gicio, unrhyw gleisiau eraill sydd heb eu hesbonio
- Crafiadau – yn enwedig o gwmpas y gwddw, yr arddyrnau a'r pigyrnau
- Llosgiadau sydd heb eu hesbonio – yn enwedig ar gefn y llaw
- Sgaldiadau – yn enwedig rhai ag ymyl blaen sy'n dangos bod y person wedi trochi mewn dŵr poeth
- Moelni ar ran o'r pen yn unig a'r croen yn dyner
- Damweiniau bach sy'n digwydd yn aml a neb yn gofyn am help
- Torri esgyrn a neb yn cynnig unrhyw esboniad
- Golwg anarferol o ddof neu gysglyd
- Diffyg maeth, briwiau, doluriau gwely a doluriau arferol sy'n dangos bod y person wedi gwlychu a baeddu a heb gael gofal
- Newid meddyg neu asiantaeth ofal yn aml

## Cam-drin seicolegol

**Chwiliwch am yr arwyddion hyn**

- Problemau cysgu, tuedd i ddianc i ystafell arall neu fynd i'r gwely
- Bwyta gormod, yn enwedig ar adegau anaddas, neu fethu â bwyta o gwbl
- Pryderu, drysu neu dderbyn popeth heb holi
- Bod yn rhy barod i ddibynnu ar bobl eraill neu ufuddhau pan mae hynny'n amlwg yn groes i gymeriad
- Ymddwyn yn hollol wahanol gyda rhai pobl
- Mynnu sylw drwy'r amser neu pan nad yw hynny'n addas
- Gwneud llawer o ddolur iddo'i hun drwy fwrw ei ben, cnoi ei law ac ati
- Colli pwysau heb fod unrhyw arwydd ei fod y colli blas ar fwyd
- Colli hyder

## Cam-drin rhywiol

**Chwiliwch am yr arwyddion hyn**

- Iaith
- Ymddwyn yn wahanol ac yn groes i gymeriad heb reswm
- Dechrau mynnu dianc a threulio amser ar ei ben ei hun
- Dechrau ymddwyn yn rhywiol/defnyddio iaith rywiol yn agored
- Gwisgo mewn ffordd anaddas a chyffwrdd â'i hun
- Gwneud dolur iddo'i hun yn fwriadol
- Gwlychu a baeddu neu wlychu'r gwely heb allu rheoli hynny
- Methu â chysgu'n rheolaidd neu ddihuno'n aml
- Cael anhawster i gerdded
- Dolur o gwmpas y pen-ôl a'r genitalia heb fod unrhyw reswm am hynny
- Ymolchi drwy'r amser
- 'Cnoadau Caru'
- Staeniau ar ddillad isaf yn enwedig gwaed neu semen
- Beichiogi neu ddal clefyd sy'n cael ei drosglwyddo yn ystod cyfathrach rywiol

## Cam-drin ariannol

**Chwiliwch am yr arwyddion hyn**

- Dechrau methu â thalu biliau pan na ddylai fod unrhyw broblem
- Arian yn cael ei dynnu o'r banc yn sydyn neu heb esboniad
- Gweld bod y person yn byw'n dlawd er gwaethaf incwm neu gyfalaf dechau - yn enwedig os yw'r sefyllfa newydd godi
- Eiddo personol yn diflannu o'r cartref heb esboniad boddhaol
- Rhywun yn derbyn cyfrifoldeb am dalu rhent, biliau, prynu bwyd ac ati ac yn amlwg yn peidio â gwneud hynny
- Perthynas, cyfaill neu gymydog yn dangos gormod o ddiddordeb yng nghynilion y person - yn enwedig os nad yw wedi dangos unrhyw ddiddordeb mewn materion eraill
- Perthynas agosaf y person yn gwrthod mynd i'r llys nawdd/sicrhau pŵer parhaol atwrnai, ac yn mynnu gwneud trefniadau anffurfiol yn lle hynny
- Aelodau o'r teulu neu'r darpar etifedd yn annog y person i beidio â chael gofal preswyl neu wasanaethau
- Arian yn cael ei wario ar bethau annisgwyl sy'n anghyson â diddordebau'r person bregus e.e. dillad ffasiynol, gwyliau ac ati.

## Esgeuluso neu beidio â gweithredu

**Chwiliwch am yr arwyddion hyn**

- Diffyg glendid personol er bod y person i fod i gael cymorth
- Dillad blêr neu anaddas i'r tywydd
- Salwch corfforol heb ei drin
- Colli pwysau; salwch oherwydd diffyg maeth neu syched
- Cwympo neu faglu dro ar ôl tro/heb fod unrhyw reswm yn cael ei roi
- Briwiau gorwedd
- Byw heb ddigon o wres neu olau
- Defnyddio celfi sy'n waeth/wedi'u treulio'n fwy na'r rhai yng ngweddill y tŷ
- Gwlychu a baeddu a chael ei orfodi i aros yn frwnt e.e. dillad a/neu gelfi'n gwynto
- Peidio â chael moddion ar yr adeg iawn am fod neb yn gofalu am hynny
- Gofalwyr sy'n gyndyn i gysylltu ag asiantaethau iechyd neu ofal cymdeithasol neu sy'n methu â chysylltu'n ddigon rheolaidd
- Byw heb urddas na phreifatrwydd am nad oes neb yn gofalu am hynny
- Dim hawl i ddefnyddio cyfleusterau allanol neu wasanaethau gofal eraill e.e. canolfannau dydd – yn enwedig y rhai sy'n gofyn am dâl
- Gofalwyr yn peidio â defnyddio'r cyfarpar diogelwch a gafodd eu hargymell.

## Sut i adnabod gofalwyr sy'n cam-drin

**Bydd lle i chi amau hynny:**

- Pan fydd gofalwr yn methu neu'n gwrthod rhoi gofal angenrheidiol i'r person hwnnw
- Os yw cyflwr meddyliol neu gorfforol y gofalwr neu'r person dan sylw'n achosi pryder
- Os yw'r gofalwr wedi camddefnyddio cyffuriau neu alcohol yn y gorffennol, neu o dan bwysau oherwydd dyled bersonol neu am ei fod y byw mewn tŷ gwael
- Os yw'r gofalwr wedi methu â chynnal perthynas yn y gorffennol ac yn methu o hyd
- Os yw'r oedolyn bregus ac weithiau'r gofalwr ei hun wedi mynd yn rhy ddibynnol.

***(McCreadie 1996)***

## Sut i adnabod staff a rheolwyr sy'n cam-drin

**Bydd lle i chi amau hynny:**

- Os nad yw'r staff wedi cael digon o hyfforddiant
- Os nad yw'r staff yn cael eu goruchwylio ddigon
- Os nad yw'r rheolwyr yn cefnogi eu staff
- Os yw'r drefn yn y gwaith yn rhy haearnaidd
- Os nad oes cyfle i staff ymuno â thrafodaethau a chynnig syniadau yn y gwaith
- Os yw'r cyflogau'n wael
- Pan fydd staff yn teimlo ei bod yn amhosibl iddynt ddylanwadu ar arferion gwaith
- Os yw'r staff yn rhan o system gaeedig

***(Wardhaugh ac Wilding 1993)***

## Cam-drin oedolion bregus mewn sefydliadau

Nid categori ar wahân yw hwn am fod perygl i fwy nag un oedolyn bregus gael ei gam-drin mewn mwy nag un ffordd mewn canolfan gofal. Weithiau bydd hynny'n digwydd am fod disgwyl i staff wneud gwaith sensitif o dan drefn haearnaidd. Weithiau bydd staff yn ymyrryd yn ormod â sefyllfa neu'n methu ag ymateb yn iawn am nad oes ganddynt ddigon o sgiliau. Weithiau bydd y lle ei hun yn anaddas.

**Chwiliwch am yr arwyddion hyn**

- Diffyg cynlluniau gofal
- Oriau ymweld anhyblyg/ymwelwyr yn cael eu cyfyngu i rannau arbennig o'r adeilad
- Awyrgylch llethol o dawel/ofnadwy o swnllyd ac afreolus
- Staff digalon; llawer o salwch; staff yn gadael a rhai newydd yn dod drwy'r adeg; oriau hir a llawer o staff yn dod o asiantaethau
- Staff sy'n anhyblyg a sinigaidd ac wedi blino drwy'r amser
- Staff a/neu breswylwyr sydd eisoes wedi gadael y sefydliad yn lleisio cwynion dros gyfnod o amser am aelodau eraill o staff
- Trefn anhyblyg a diffyg dewis o safbwynt pryd y caiff preswylwyr godi er enghraifft
- Peidio ag ymgynghori â phreswylwyr, na'u cynnwys, na'u paratoi na siarad â hwy ynglŷn â gofal personol neu feddygol.

- Gorfodi person bregus i rannu ystafell wely; peidio â sicrhau bod gan breswylwyr eu heiddo personol yn yr ystafell
- Preswylwyr yn gwisgo dillad pobl eraill neu'n edrych yn flêr neu'n frwnt
- Gwynt cryf lle mae pobl wedi gwneud dŵr: olion ar ddillad a dillad gwely
- Gwneud gormod o ddefnydd o gadeiriau sy'n pwyso'n ôl a rheiliau ar ochrau gwelyau
- Defnyddio enemas, cathetrau a moddion pan nad oes angen.

## Swyddogaethau a dyletswyddau

Bydd Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol yn chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith canlynol:

- Cyd-drefnu a datblygu polisïau lleol;
- Cyd-drefnu Cynllun Amddiffyn Oedolion rhyngasiantaethol er mwyn gwarchod oedolion bregus rhag cael eu cam-drin.

## Rheolwr Arweiniol Penodedig

Dyma'r person sy'n gyfrifol am gyd-drefnu a chysylltu ag asiantaethau allanol er mwyn trafod sut i amddiffyn oedolion. Mae'n bosibl penodi mwy nag un rheolwr arweiniol os yw strwythur a maint yr asiantaeth yn galw am hynny.
*Termau Polisi a Dulliau Gweithredu Fforwm Amddiffyn Oedolion De Cymru*

## Cyfeirio pobl a dod i benderfyniadau

Os ydych yn ansicr **GOFYNNWCH AM GYNGOR.**

Pan fyddwch yn ansicr – cofiwch ei bod yn well bob amser i chi gyfeirio'r achos at rywun arall na pheidio â gweithredu o gwbl.

Mae dyletswydd foesol a chyfreithiol ar staff asiantaethau a sefydliadau sy'n dilyn trefn y Fforwm i weithredu'n bendant os gwelant neu os clywant fod unrhyw oedolion bregus yn cael eu cam-drin neu'u hamddifadu o ofal angenrheidiol.
*9.3 Polisi a Dulliau Gweithredu Fforwm Amddiffyn Oedolion De Cymru*

Pwrpas y dulliau gweithredu hyn yw helpu staff i weithredu'n bendant mewn ffordd hyderus **ac mae gennym bob ffydd y bydd hynny'n digwydd**. Cadw pobl fregus yn ddiogel a chyffyrddus yw ein prif nod ar hyd yr amser.
*9.5 Polisi a Dulliau Gweithredu Fforwm Amddiffyn Oedolion De Cymru*

Rydym i gyd yn gyfrifol am ein penderfyniadau, a bydd disgwyl i ni allu egluro pam yr ydym wedi dod i benderfyniad neu weithredu mewn ffordd arbennig – **gan hynny, mae'n bwysig cofnodi'r holl wybodaeth sy'n dod i law a hefyd bob penderfyniad sy'n cael ei wneud ar sail y wybodaeth honno.**

## Sut i weithredu os ydych yn pryderu

**Pob aelod o'r cyhoedd a staff**
Os ydych yn gweld neu'n amau am unrhyw reswm, fod rhywun yn cael ei gam-drin, mae'n rhaid i chi weithredu ar unwaith.

- Efallai y bydd yn rhaid cymryd camau'n syth er mwyn amddiffyn y person.
- Gallai hynny olygu cysylltu â'r heddlu neu hyd yn oed drefnu i'r person gael gofal meddygol ar frys.
- Os nad oes angen gweithredu ar unwaith, gellwch gyfeirio'r person at un o'r asiantaethau statudol, y Gwasanaethau Cymdeithasol, Ymddiriedolaeth Iechyd neu'r Heddlu *
- Ar ôl i un o'r asiantaethau hyn gael gwybod y sefyllfa, bydd yn bosibl trefnu lle diogel dros dro i'r person os bydd angen.
- *Mae rhifau ar gyfer cysylltu â'r asiantaethau hyn ar dudalen 7

**Staff**
Mae'n RHAID i chi roi gwybod ar unwaith i'ch rheolwr llinell eich hun neu reolwr llinell arall yn eich maes gwasanaeth. Bydd y person hwnnw wedyn yn cysylltu â'r Rheolwr Arweiniol Penodedig yn y Gwasanaethau Cymdeithasol neu Iechyd er mwyn trafod eich pryderon. Os na ellwch gysylltu â'ch rheolwr llinell, mae croeso i chi ffonio'r Rheolwr Arweiniol yn uniongyrchol.

## Rheolwyr Asiantaethau Statudol

Ar ôl derbyn y wybodaeth mae'n rhaid i chi

- nodi'ch pryderon a chasglu cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl.
- sôn am eich pryderon wrth y Rheolwr Arweiniol.
- helpu'r gweithiwr gofal i lenwi'r ffurflen gyfeirio (VA1) - sef tudalennau 1-4.
- lenwi tudalennau 5-7 eich hun.
- ffacsio'r ffurflen (VA1) at y Rheolwr Arweiniol.

**Sylwch ei bod yn rhaid i'r holl broses gael ei gwblhau yn ystod yr un diwrnod gwaith - o'ch pryderon cyntaf i'r cyfarfod olaf rhwng y rheolwr a'r Rheolwr**

**Arweiniol. Os nad yw'r Rheolwr Arweiniol ar gyfer y tîm dan sylw ar gael, bydd croeso i chi gysylltu ag unrhyw Reolwr Arweiniol neu'r Cyd-drefnydd Amddiffyn Oedolion – Cewch y rhifau ar dudalen 7.**

## Gwasanaethau Cymdeithasol Bro Morgannwg

**Mae'n bosibl cyfeirio oedolion bregus at asiantaethau eraill drwy drefnu gyda staff**
**Canolfan Gysylltu a Holi'r Cyngor** **01446 731100**
Llun – Iau 8.30am – 5.00pm
Gwener 8.30am – 4.30pm

Mae rhestr ddiweddar gyflawn o'r holl Reolwyr Arweiniol Penodedig i'w chael yn y Ganolfan.

Cewch ffonio'r Tîm Dyletswydd Brys yn y nos, ar y penwythnos ac yn ystod Gwyliau Banc ar **029 20448360**

**Cyd-drefnydd Amddiffyn Oedolion** **01446 704740**
**Gwefan Cyngor Bro Morgannwg**
**http://www.valeofglamorgan.gov.uk/adultprotection**

## Rhagor o rifau defnyddiol

| | |
|---|---|
| **Heddlu De Cymru (Adran 'E')** | |
| **Uned Amddiffyn Cyhoedd y Barri** | **01446 731604** |
| **Bwrdd Iechyd Bro Morgannwg** | **02920 350600** |
| **Bwrdd Iechyd Lleol Pen-y-bont ar Ogwr** | **01656 754400** |
| **Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg** | **01656 752919** |
| **Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro** | **02920 743681** |
| **Ymddiriedolaeth GIG Felindre** | **02920 316917** |
| **Y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Gwladol** | **02920402512** |
| **Cyfarwyddiaeth Safonau Gofal Cymru** | |
| **(Swyddfa Ranbarthol y Fro a'r Cymoedd)** | **01443 848527/29** |
| **Cymorth Dioddefwyr** | **01446 746049** |

## Nodiadau